



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# **RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (GORCHMYNION INTERIM) 2022**

**Hydref 2022**

Mae'r broses o reoleiddio cofrestru ac addasrwydd i ymarfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei rheoli gan dri math o ddogfennau cyfreithiol, sydd oll yn berthnasol i gofrestru ac addasrwydd i ymarfer unigolion cofrestredig:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau Llywodraeth Cymru;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'i nodi yn y Rheolau hyn. Dylech felly ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae fersiwn (ddiwygiedig) ddiweddaraf y **Ddeddf** i'w gweld yn: [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

Rhestrir y Rheoliadau isod a gellir eu gweld yn - <http://www.legislation.gov.uk/wsi>

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2018
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael yn:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/sut-mae-gwrandawiadaun-gweithio>  
<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru>

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4) ac 174(1),(6),(7),(8) a (9) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac yn unol ag adran 75(3) y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN I CYFLWYNIAD

- |    |  |   |
|----|--|---|
| 1. | Cyfeirio, cychwyn a threfniadau trosiannol | 4 |
| 2. | Dehongli                                   | 4 |

### RHAN II

#### GORCHMYNION INTERIM

- |    |                       |   |
|----|-----------------------|---|
| 3. | Cwmpas a dehongliad   | 8 |
| 4. | Dull cynnal achosion  | 8 |
| 5. | Gwysion tyst          | 8 |
| 6. | Cyfarfod rheoli achos | 9 |

### RHAN III

#### GWRANDAWIADAU PANEL GORCHMYNION INTERIM

- |     |  |    |
|-----|--|----|
| 7.  | Hysbysiad o'r gwrandawriad                               | 11 |
| 8.  | Gohirio'r gwrandawriad                                   | 12 |
| 9.  | Y weithdrefn mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim | 13 |
| 10. | Tystiolaeth  | 14 |
| 11. | Tystion  | 14 |
| 12. | Mesurau arbennig   | 15 |
| 13. | Oedi'r gwrandawriad                                      | 14 |
| 14. | Pleidleisio  | 14 |
| 15. | Trawsgrifiad o'r gwrandawriad                            | 14 |
| 16. | Achos heb wrandawriad                                    | 15 |
| 17. | Y weithdrefn mewn cyfarfod                               | 16 |
| 18. | Hysbysiad o'r penderfyniad                               | 17 |

## **RHAN IV**

### **GWRANDAWIADAU GORCHMYNION INTERIM ADDASRWYDD I YMARFER**

19.	Hysbysiad o'r gwrandawiad	18
20.	Y weithdrefn mewn gwrandawiad panel gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer	19
21.	Achos heb wrandawiad	20
22.	Y weithdrefn mewn cyfarfod	21

## **RHAN V**

### **ADOLYGU GORCHMYNION INTERIM**

23.	Hysbysiad o'r gwrandawiad	22
24.	Y weithdrefn wrth adolygu gorchymyn interim	23
25.	Rhoi Hysbysiadau	23

# RHAN I

## CYFLWYNIAD

### Cyfeirio a chychwyn

1. (1) Ceir cyfeirio at y Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2022 a byddant yn dod i rym ar 1 Hydref 2022.
- (2) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2017 (“Rheolau 2017”), ond bydd Rheolau 2017 yn parhau i fod mewn grym mewn perthynas ag unrhyw wrandawiadau panel gorchmynion interim neu wrandawiadau panel gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2018, ond na chwblhawyd erbyn y dyddiad hwnnw.
- (3) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2018 (“Rheolau 2018”), ond bydd Rheolau 2018 yn parhau i fod mewn grym mewn perthynas ag unrhyw wrandawiadau panel gorchmynion interim neu wrandawiadau panel gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018, ond na chwblhawyd erbyn 1 Ebrill 2020.
- (4) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2020 (“Rheolau 2020”), ond bydd Rheolau 2020 yn parhau i fod mewn grym mewn perthynas ag unrhyw wrandawiadau panel gorchmynion interim neu wrandawiadau panel gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020, ond na chwblhawyd erbyn 1 Hydref 2022.

### Dehongli

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Mae “**Deddf**” yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd);

Mae “**Cyngor Gofal**” yn golygu un o'r cyrff sy'n cynnal cofrestr berthnasol fel y cyfeirir ati yn adran 111(4) (b), (c) a (d) y Ddeddf:

Mae “**achos**” yn golygu:

- (a) gweithrediadau yn ymwneud ag achos interim gerbron panel gorchmynion interim, neu
- (b) achos gorchmynion interim gerbron panel addasrwydd i ymarfer;

Mae “**cyfarfod rheoli achos**” yn golygu cyfarfod gerbron panel sy'n cynnwys un neu dri aelod o banel, a gynghorir gan gynghorydd cyfreithiol, a sefydlwyd i gynnal cyfarfod rheoli achos o dan Ran II y Rheolau hyn;

Mae “**rheolau trefniadaeth sifil**” yn golygu rheolau'r llys a wneir o dan adran 2 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997;

Mae “**clerc**” yn golygu'r unigolyn sy'n gyfrifol am drefniadau gweinyddol y cyfarfod neu'r gwrandawriad;

Mae “**diwrnodau**” yn golygu diwrnodau calendr;

Mae “**unigolyn a awdurdodwyd yn briodol**” yn golygu unigolyn y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dirprwyo awdurdod iddo, a gall gynnwys:

- (a) un neu fwy o aelodau staff Gofal Cymdeithasol Cymru, a/neu
- (b) un neu fwy o unigolion a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwnnw;

Mae “**cyflogwr**” yn cynnwys asiantaethau cyflogaeth, pobl hunangyflogedig, ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (sy’n gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol ohonynt;

Mae “**gwrandawriad addaswydd i ymarfer**” yn golygu gwrandawriad gerbron panel addaswydd i ymarfer mewn achos addaswydd i ymarfer;

Mae “**panel addaswydd i ymarfer**” yn golygu panel a sefydlwyd i:

- (a) wneud penderfyniadau ynglŷn ag addaswydd i ymarfer unigolion sydd wedi’u cofrestru ar y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;
- (b) atal cofrestriad unigolyn ar y gofrestr dros dro, neu osod amodau ar ei gofrestrriad, tra’n disgwyl penderfyniad o’r math a grybwyllwyd ym mharagraff (a);

Mae “**in camera**” yn golygu yn absenoldeb y partïon, eu cynrychiolwyr a’r cyhoedd;

Mae “**gorchymyn cofrestriad amodol interim**” yn golygu gorchymyn interim sy’n gosod amodau ar gofrestrriad unigolyn cofrestredig;

Mae “**gorchymyn interim**” yn golygu gorchymyn cofrestriad amodol interim neu orchymyn atal dros dro interim;

Mae “**gwrandawriad gorchymynion interim**” yn golygu:

- (a) gwrandawriad gerbron panel gorchymynion interim mewn achos gorchymynion interim, neu
- (b) wrandawriad gerbron panel addaswydd i ymarfer mewn achos gorchymynion interim;

Mae “**panel gorchymynion interim**” yn golygu panel a sefydlwyd sydd â’r pŵer i atal cofrestriad unigolyn ar y gofrestr dros dro, neu osod amodau ar ei gofrestrriad, tra’n disgwyl penderfyniad gan banel apeliadau cofrestru neu banel addaswydd i ymarfer;

Mae “**achos gorchymyn interim**” yn golygu achos gerbron panel gorchymynion interim y mae Pennod 4 Rhan 6 y Ddeddf yn berthnasol iddo;

Mae “**gorchymyn atal dros dro interim**” yn golygu gorchymyn sy’n atal cofrestriad unigolyn cofrestredig dros dro;

Mae “**cynghorydd cyfreithiol**” yn golygu unigolyn a chanddo gymhwyster cyffredinol deng mlynedd o fewn ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990, sydd â hawl i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr;

Mae “**cyfarfod**” yn golygu cyfarfod panel gorchmynion interim sy’n cael ei gynnwys yn unol â rheolau 16 ac 17 y Rheolau hyn neu gyfarfod panel addasrwydd i ymarfer yn unol â rheolau 21 a 22 y Rheolau hyn;

Mae “**hysbysiad**” yn golygu gwybodaeth a gyhoeddir ynglŷn ag achos panel gorchmynion interim;

Mae “**panel**” yn golygu panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ôl y digwydd, a gyfansoddiwyd yn unol ag adran 174 y Ddeddf y cyflwynir yr achos oddi tani;

Mae “**partion**” yn golygu’r unigolyn cofrestredig y mae’r achos gorchmynion interim yn ymwneud ag ef a Gofal Cymdeithasol Cymru (neu eu cynrychiolwyr);

Mae “**cyflwynydd**” yn golygu’r unigolyn sy’n gweithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru mewn gwrandawriad gerbron panel, a gallai gynnwys un o swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru neu gyfreithiwr neu fargyfreithiwr a gyflogwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwn;

Mae “**cofrestr**” yn golygu’r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

Mae “**unigolyn cofrestredig**” yn golygu unigolyn y gwnaed yr atgyfeiriad i’r panel gorchmynion interim neu’r panel addasrwydd i ymarfer ynglŷn ag ef (yn ôl y digwydd) sydd wedi cofrestru mewn rhan o’r gofrestr, gan gynnwys unigolyn y byddai ei gofrestriad wedi darfu o dan adran 87(1) y Ddeddf, heblaw am y ffaith bod is-adran (2) yr adran honno’n berthnasol i’r unigolyn;

Mae “**cofrestriad**” yn golygu’r cofnod yn y gofrestr sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig penodol;

Mae “**panel apeliadau cofrestru**” yn golygu panel a sefydlwyd i wneud penderfyniadau o dan Ran 4 y Ddeddf mewn perthynas â chofrestriad cychwynnol ar y gofrestr, aros ar y gofrestr ac adfer i’r gofrestr;

Mae “**corff rheoleiddio**” yn golygu corff yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall sy’n gyfrifol am reoleiddio, archwilio, arolygu, trwyddedu neu adolygu darpariaeth gofal cymdeithasol, iechyd neu addysg, neu reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn gofal cymdeithasol, iechyd neu addysgu;

Mae “**Gofal Cymdeithasol Cymru**” yn golygu’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac a adwaenwyd yn flaenorol fel Cyngor Gofal Cymru;

Mae “**tribiwnlys**” yn golygu’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal);

(2) Yn y rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

- (a) mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
- (b) mae unrhyw gyfeiriad at reol neu ran wedi’i rhifo yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sydd â’r rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;

- (c) mae unrhyw gyfeiriad at baragraff wedi'i rifo mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at y paragraff sydd â'r rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno;
- (ch) mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi'i rifo mewn paragraff mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sydd â'r rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno.



## RHAN II

### GORCHMYNION INTERIM

#### Cwmpas a dehongliad

3. (1) Mae Rhan III y rheolau hyn ('gwrandawiadau panel gorchmynion interim') yn berthnasol pan fydd mater wedi cael ei atgyfeirio i banel gorchmynion interim.
- (2) Mae Rhan IV y rheolau hyn ('gwrandawiadau gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer') yn berthnasol pan fydd mater wedi cael ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, i'r achos gerbron y panel addasrwydd i ymarfer, neu'r rhan honno o'r achos hwnnw y mae'r panel addasrwydd i ymarfer yn ei hystyried:
  - (a) p'un ai gwneud gorchymyn interim, neu
  - (b) adolygu gorchymyn interim.
- (3) Pan fydd achos wedi cael ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, mae'n rhaid i unrhyw orchymyn interim gael ei wneud cyn i'r mater gael ei waredu gan y panel addasrwydd i ymarfer yn unol ag adrannau 135 i 138 y Ddeddf.

#### Dull cynnal achosion

4. (1) Wrth ystyried p'un ai gwneud neu adolygu gorchymyn interim, bydd y panel gorchmynion interim a'r panel addasrwydd i ymarfer yn cynnal eu hachosion yn unol â gofynion y Rheolau hyn a gofynion Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd).

#### Gwŷs tyst

5. (1) Pan fydd un o'r partïon yn mynnu bod tyst yn bresennol neu fod tyst yn cyflwyno dogfen neu dystiolaeth berthnasol a bod y tyst hwnnw wedi gwrthod mynychu neu gyflwyno'r ddogfen gerbron y gwrandawriad neu wedi methu â chadarnhau y bydd yn gwneud hynny, caiff y parti hwnnw gyflwyno cais ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru yn gofyn iddo wneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys am gyhoeddi gwŷs tyst yn unol â Rheol 34.4 Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998.
- (2) Bydd cais ysgrifenedig a wnaed o dan baragraff (1) uchod yn cael ei ystyried gan unigolyn a awdurdodwyd yn briodol, a gaiff benderfynu:
  - (a) y dylai'r cais gael ei ganiatáu;
  - (b) y dylai'r cais gael ei wrthod; neu
  - (c) y dylai'r cais gael ei ystyried gan banel mewn cyfarfod rheoli achos o dan reol 6 neu mewn gwrandawriad a gynullwyd o dan Ran III y rheolau hyn.
- (3) Wrth wneud penderfyniad, bydd yr unigolyn a awdurdodwyd yn briodol neu'r panel (yn ôl y digwydd) yn ystyried perthnasedd a phwysigrwydd tystiolaeth y tyst neu'r ddogfen dan sylw a ph'un a yw'n deg ac yn briodol gwneud y cyfarwyddyd a geisir.
- (4) Lle y caniateir cais o dan baragraff (2) uchod gan unigolyn a awdurdodwyd yn briodol neu y rhoddir cyfarwyddyd gan banel o dan reol 6(8)(i), bydd Gofal

Cymdeithasol Cymru yn gwneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys ac yn cael y wŷs tyst briodol.

- (5) Lle'r oedd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud y cais am gyfarwyddyd ar gyfer y wŷs tyst, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn trefnu i'r wŷs tyst gael ei chyflwyno i'r tyst dan sylw.
- (6) Oni chyfarwyddir fel arall, lle y gwnaed y cais am gyfarwyddyd gan neu ar ran yr unigolyn cofrestredig, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi'r wŷs tyst i'r unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd ar ôl iddi gael ei chyhoeddi a bydd yr unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn trefnu cyflwyno'r wŷs tyst i'r tyst dan sylw.
- (7) Oni chyfarwyddir fel arall, bydd y parti sy'n cyflwyno'r wŷs tyst yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau teithio a/neu iawndal am golli amser, fel sy'n ofynnol gan Reol 34.7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

### **Cyfarfod rheoli achos**

6. (1) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynnull:
  - (a) lle, yn dilyn cais gan un o'r partiön, mae swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn ystyried y byddai cyfarfod rheoli achos yn briodol; neu
  - (b) yn unol â chyfarwyddyd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol; neu
  - (c) yn unol â chyfarwyddyd panel;
- (2) Ceir cynnal cyfarfod rheoli achos drwy fynychu'r cyfarfod yn bersonol neu drwy gymryd rhan mewn ffôn-gynadledda neu fideo-gynadledda.
- (3) Yn amodol ar baragraff (4), bydd clerch yn anfon hysbysiad priodol at yr unigolyn cofrestredig a'r cyflwynydd o leiaf bum niwrnod cyn y cyfarfod rheoli achos.
- (4) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (3) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd.
- (5) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cynnwys un aelod o banel oni bai:
  - (a) bod unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn penderfynu y dylai'r panel gynnwys tri aelod; neu
  - (b) pan fydd panel yn cyfarwyddo y dylai cyfarfod rheoli achos gael ei gynnal, bod y panel hefyd yn cyfarwyddo y dylai'r panel ar gyfer y cyfarfod rheoli achos gynnwys tri aelod.
- (6) Gall yr aelod(au) o banel fod yr un aelod(au) a ddefnyddir ar gyfer y gwrandawriad panel gorchmynion interim neu'r gwrandawriad gorchmynion interim addasrwydd i ymarfer neu beidio, yn ôl y digwydd.
- (7) Bydd y panel mewn gwrandawriad rheoli achos yn cael ei gynghori gan gynghorydd cyfreithiol.
- (8) Caiff y cyfarfod rheoli achos roi cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr achos yn cael ei gynnal yn gyfiawn, yn gyflym ac yn effeithiol, a chaiff wneud penderfyniad ynglŷn â mater rhagarweiniol y gellir penderfynu arno gan banel rheoli achos yn unig, gan gynnwys:
  - (a) p'un a ddylai tystiolaeth benodol gael ei chyfaddef;

- (b) p'un a ddylid caniatáu i dyst neu dystion penodol roi tystiolaeth lafar mewn gwrandawriad gorchymyn interim;
  - (c) os oes hawlogaeth gan yr unigolyn i fesurau arbennig yn ôl hawl yn unol â rheoliadau 35(1)(a) a 35(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), pa fesurau arbennig y dylid eu rhoi ar waith;<sup>1</sup>
  - (ch) p'un a ddylai unrhyw dyst arall gael ei drin fel un y mae arno angen mesurau arbennig ac, os felly, pa fesurau y dylid eu sefydlu;
  - (d) p'un a ddylid cynnal gwrandawriad ar y cyd yn ymwneud â dau unigolyn cofrestredig neu fwy;
  - (dd) p'un a ddylai'r gwrandawriad gorchmynion interim fod yn gyhoeddus neu'n breifat, yn unol â rheoliadau 22 neu 33 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016;
  - (e) p'un a ganiateir i'r unigolyn cofrestredig gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad gorchmynion interim gan rywun heblaw am gyfreithiwr, cwnsler neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol;
  - (f) p'un a ellir cynnal yr achos gorchmynion interim heb wrandawriad pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliadau 18(1) neu 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn berthnasol;
  - (ff) p'un a ddylid rhoi cyfarwyddyd ar gyfer gwŷs tyst.
- (9) Bydd y weithdrefn yn y cyfarfod rheoli achos yn cael ei phenderfynu gan y panel rheoli achos yn unig.
- (10) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynnal yn breifat, oni bai bod y panel rheoli achos yn cyfarwyddo fel arall.
- (11) Lle nad yw parti'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddwyd mewn cyfarfod rheoli achos, caiff panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer, yn ôl y digwydd, ddod i'r cyfryw gasgliadau ag y mae'n ystyried eu bod yn briodol a/neu wneud pa benderfyniad bynnag y mae'n credu ei fod yn fwyaf priodol o ran derbynioldeb tystiolaeth neu unrhyw fater arall perthnasol.

---

<sup>1</sup> O dan reoliad 35(1)(a), bydd gan unigolyn sy'n rhoi tystiolaeth mewn gwrandawriad Panel Gorchmynion Interim, gan gynnwys unigolyn cofrestredig, hawlogaeth i fesurau arbennig os yw o dan 18 oed. O dan 35(2), bydd gan unigolyn hawlogaeth i fesurau arbennig os bydd y mater y mae'r achos yn ymwneud ag ef o natur rywiol ac mae'r unigolyn yn ddiodefwr honedig.

## RHAN III

### GWRANDAWIADAU PANEL GORCHMYNION INTERIM

#### Hysbysiad o'r gwrandawriad

7. (1) Pan fydd achos yn cael ei atgyfeirio i banel gorchmynion interim o dan adrannau 94(3), 118(2)(b), 119(2) neu 125(2) y Ddeddf, bydd hysbysiad yn cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig, a fydd:
- (a) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i fynychu'r gwrandawriad;
  - (b) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawriad;
  - (c) yn rhoi datganiad byr i'r unigolyn cofrestredig o'r materion sy'n ymddangos fel petaent yn codi amheuan ynglŷn â:
    - (i) ph'un a ddylai cofrestriad yr unigolyn cofrestredig gael ei atal dros dro neu fod yn ddarostyngedig i amodau; a
    - (ii) pham y mae'r cyfryw gam yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn aelodau'r cyhoedd neu pam y mae er budd y cyhoedd neu er budd yr unigolyn cofrestredig fel arall;
  - (ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawliau i roi tystiolaeth yn bersonol, galw tystion a chroesholi unrhyw dystion a elwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 35(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd)<sup>2</sup>;
  - (d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r panel yn bersonol neu i gael ei gynrychioli gan:
    - (i) gyfreithiwr neu gwmsler; neu
    - (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
    - (iii) os yw'r panel yn cytuno, unrhyw unigolyn arall;
  - (dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod yr unigolyn cofrestredig yn gofyn i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus ac nid yw'r panel gorchmynion interim yn credu y byddai hynny'n groes i fudd y cyhoedd;
  - (e) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, yn amodol ar baragraff (3), bod rhaid i unrhyw gais am gael ei gynrychioli gan unigolyn heblaw am y rhai a restrir ym mharagraff (d) (i) neu (ii) uchod, gael ei anfon at y clerc o leiaf dri diwrnod cyn gwrandawriad, gan nodi enw'r cynrychiolydd arfaethedig a chadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
  - (f) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig na chaiff unigolyn sy'n cynrychioli neu'n cynghori'r unigolyn cofrestredig roi tystiolaeth;
  - (ff) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, yn amodol ar baragraff (3), os na fydd yn dymuno mynychu'r gwrandawriad, y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad i'w hystyried gan y panel;
  - (g) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;

---

<sup>2</sup> O dan reoliad 35(12), os yw'r mater y mae'r achos yn gysylltiedig ag ef o natur rywiol, ni all yr unigolyn cofrestredig groesholi'r dioddefwr honedig yn bersonol, heblaw eithriadau cyfyngedig. Mae Rheoliad 35(13) ac (14) yn darparu sut y dylid cynnal yr achos o dan y cyfryw amgylchiadau.

- (ng) yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â ph'un a yw'r unigolyn cofrestredig yn bwriadu:
    - (i) mynychu'r gwrandawriad;
    - (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad;
    - (iii) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig;
    - (iv) gofyn i'r cais gael ei benderfynu heb wrandawriad os yw'r amgylchiadau yn rheoliad 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd, yn berthnasol<sup>3</sup>;
  - (h) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau sydd i'w cyflwyno gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.
- (2) Yn amodol ar baragraffau (3) a (4) isod, pan gyhoeddir hysbysiad o wrandawriad o dan baragraff (2), bydd cais am orchymyn interim yn cael ei glywed heb fod yn gynharach na saith diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o wrandawriad i'r unigolyn cofrestredig.
  - (3) Caiff y panel hepgor gofynion paragraff (1)(e) neu (i) neu'r cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd neu er budd cyfiawnder.
  - (4) Er gwaethaf paragraff (3) uchod, ni fydd y panel yn gosod gorchymyn interim ar gofrestrriad unigolyn cofrestredig heb hysbysu'r unigolyn cofrestredig o'r bwriad hwnnw yn gyntaf, fel y bo'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos.

### **Gohirio'r gwrandawriad**

8. (1) Pan fydd y naill barti neu'r llall yn dymuno gohirio'r gwrandawriad, bydd cais yn cael ei wneud yn ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Bydd y parti sy'n gwneud cais o'r fath yn rhoi copi o'r cais i'r parti arall, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.
- (3) Pan fydd y partïon yn cytuno i ohiriad fwy na 3 diwrnod cyn dyddiad gwrandawriad panel gorchymynion interim, gall unigolyn a awdurdodwyd yn briodol ohirio'r gwrandawriad, ar yr amod bod y gohiriad yn cydymffurfio ag adran 146 y Ddeddf.<sup>4</sup>
- (4) Wrth wneud penderfyniad, rhaid i'r unigolyn a awdurdodwyd yn briodol ystyried yr amcan cyffredinol i ddelio'n deg ac yn gyfiawn ag achosion.
- (5) Os gwneir cais i ohirio lai na 3 diwrnod cyn dyddiad gwrandawriad panel gorchymynion interim, nid yw'r partïon yn cytuno i'r gohiriad neu os nad yw'r unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn cytuno i'r cais, bydd y cais yn cael ei ystyried gan gadeirydd y panel a fydd, yn amodol ar baragraff (7), yn penderfynu ar y cais, gan ystyried:
  - (a) cyflwyniadau'r ddau barti;

<sup>3</sup> Mae rheoliad 30 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn nodi amgylchiadau arbennig pryd y ceir penderfynu ar gais am wrandawriad gorchymynion interim heb wrandawriad. Mae hyn yn bosibl dim ond os yw'r amgylchiadau ym mharagraffau (a), (b), (c) a (d) rheoliad 30 yn berthnasol.

<sup>4</sup> O dan reoliad 146(1) a (7), rhaid i banel adolygu gorchymyn interim o fewn 6 mis o ddyddiad gwneud y gorchymyn hwnnw neu o fewn 6 mis o'r adolygiad mwyaf diweddar. (Mae cyfnod adolygu gwahanol yn berthnasol os yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal) wedi ymestyn y gorchymyn interim.)

- (b) unrhyw niwed tebygol i'r naill barti neu'r llall;
  - (c) budd y cyhoedd o ran gwaredu'r achos yn gyflym.
- (6) Caiff y parti y rhoddir y cais iddo gyflwyno ymateb ysgrifenedig i gadeirydd y panel.
- (7) Pan fydd y cadeirydd o'r farn na ellir gwneud penderfyniad heb wybodaeth neu gyflwyniadau ychwanegol gan un neu fwy o'r partïon, caiff y cadeirydd gyfarwyddo:
- (a) bod y cais yn cael ei atgyfeirio i gyfarfod rheoli achos i'w ystyried o dan reol 6; neu
  - (b) os yw'r cais am ohirio'n cael ei wneud llai na thri diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad gorchmynion interim, y dylai'r cais gael ei benderfynu gan y panel a gynullwyd i glywed y cais am orchymyn interim.
- (8) Os bydd y cais am ohirio'n cael ei ganiatáu, neu os bydd rhaid i'r mater gael ei aildrefnu am ryw reswm arall, bydd y clerwr yn rhoi gwybod i'r partïon am ddyddiad newydd y gwrandawriad, cyn gynted â phosibl.

### **Y weithdrefn mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim**

9. (1) Os nad yw'r unigolyn cofrestredig yn bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad, bydd y panel:
- (a) yn mynnu cael tystiolaeth bod hysbysiad o'r gwrandawriad wedi cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig yn unol â rheol 7 neu dystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i hysbysu'r unigolyn cofrestredig am y gwrandawriad, ac
  - (b) yn holi a oes unrhyw resymau pam nad yw'r unigolyn cofrestredig yn bresennol wedi cael eu cyfleu i Ofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Lle mae paragraff (1) yn berthnasol, bydd y panel gorchmynion interim yn penderfynu p'un ai ymarfer y disgrisiwn o dan reoliad 36(4) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) i fwrw ymlaen â'r gwrandawriad yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig neu oedi, a bydd yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad.
- (3) Dilynir y weithdrefn ganlynol mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim:
- (a) bydd y cyflwynydd yn amlinellu ffeithiau'r achos a'r rhesymau pam y dylai cofrestriad yr unigolyn cofrestredig fod yn ddarostyngedig i orchymyn interim, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny;
  - (b) caiff yr unigolyn cofrestredig amlinellu'r rhesymau pan na ddylai'r panel ganiatáu cais o'r fath, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny;
  - (c) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd cyfreithiol;
  - (ch) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd meddygol (os yw'n bresennol);
  - (d) bydd y panel yn trafod *in camera*;
  - (dd) pan fydd y panel yn penderfynu y dylai gorchymyn cofrestriad amodol interim gael ei osod, bydd y panel yn cyhoeddi'r amod(au) i'w cynnwys yn y gorchymyn hwnnw ac yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig (pan fydd yn bresennol) a'r

- cyflwynydd i wneud sylwadau ar eiriad yr amod(au) arfaethedig a gallu'r unigolyn cofrestredig i gydymffurfio, cyn i'r panel gwblhau geiriad yr amod(au) yn derfynol;
- (e) bydd y panel yn penderfynu ar y cais ac yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, ym mhresenoldeb y partion (pan fyddant yn bresennol);
  - (f) pan fydd yr achos yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, bydd y panel yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, yn gyhoeddus.

### Tystiolaeth

- 10. (1) Yn amodol ar reoliad 32(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), caiff panel dderbyn tystiolaeth lafar neu ddogfennol neu dystiolaeth arall.
- (2) Yn ogystal â chaniatáu'r tystysgrifau y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(3)<sup>5</sup>, (4)<sup>6</sup> a (5)<sup>7</sup> Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd cynhyrchu cofnod o rybuddiad yn dystiolaeth prima facie o ffeithiau sylfaenol y drosedd a arweiniodd at y rhybuddiad.
- (3) Caiff panel, o'i wirfodd, ofyn i'r partion ddarparu dogfennau neu dystiolaeth arall neu ofyn i unigolyn roi tystiolaeth lafar y mae'n credu y gallai ei gynorthwyo i wneud penderfyniad.

### Tystion

- 11. (1) Bydd tystion yn tyngu llw neu bydd yn ofynnol iddynt roi cadarnhad.
- (2) Caiff panel, ar gais y parti sy'n galw'r tyst, gytuno na fydd manylion personol y tyst yn cael eu datgelu'n gyhoeddus.
- (3) Yn amodol ar reoliad 35(12) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw ac yna caiff y parti gwrthwynebol eu croesholi, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 35(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd). Wedyn, caiff y parti sy'n galw'r tyst ail-holi'r tyst.
- (4) Yna, caiff y panel, neu'r cynghorydd cyfreithiol, holi'r tystion gyda chaniatâd y cadeirydd.
- (5) Wedi hynny, caiff y partion holi'r tystion ar faterion sy'n deillio o gwestiynau'r panel. Bydd y parti sy'n galw'r tyst yn holi'r tyst olaf.

---

<sup>5</sup> Mae rheoliad 20(3) yn darparu bod tystysgrif a lofnodwyd gan swyddog cymwys llys o unrhyw awdurdodaeth sy'n datgan bod unigolyn wedi cael ei euogfarnu o drosedd, neu yn yr Alban a darn o euogfarn (*extract conviction*), yn dystiolaeth bendant o'r drosedd.

<sup>6</sup> Mae rheoliad 20(4) yn darparu bod tystysgrif bod unigolyn wedi'i gynnwys ar restr wahardd (at ddibenion adran 117(1)(c) y Ddeddf), a roddwyd gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal y rhestr, yn dystiolaeth bendant o'r ffaith honno.

<sup>7</sup> Mae rheoliad 20(5) yn darparu bod tystysgrif a roddwyd gan gorff perthnasol (at ddibenion 117(1)(d) y Ddeddf) sy'n datgan ei fod wedi penderfynu bod amhariad ar addasrwydd unigolyn i ymarfer yn dystiolaeth bendant o'r penderfyniad hwnnw.

- (6) Bydd tystion yn cael eu holi ymhellach yn ôl disgrisiwn panel yn unig.
- (7) Ni chaniateir i dystion fynychu ac arsylwi'r achos hyd nes y byddant wedi gorffen rhoi tystiolaeth i banel a chael eu rhyddhau'n ffurfiol gan y cadeirydd.

### **Mesurau arbennig**

12. (1) Pan fydd panel gorchmynion interim yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 35(11) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd), caiff y mesurau arbennig sydd i'w gweithredu neu eu darparu gynnwys y canlynol, ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt:
  - (a) defnyddio cysylltiadau fideo;
  - (b) defnyddio tystiolaeth a recordiwyd o flaen llaw fel tystiolaeth tyst;
  - (c) defnyddio sgriniau;
  - (ch) defnyddio dehonglwyr (gan gynnwys dehonglwyr iaith arwyddion a chyfieithwyr) neu gyfryngwyr.

### **Oedi'r gwrandawriad**

13. (1) Yn amodol ar ofynion gwrandawriad teg, ac ar ôl clywed sylwadau gan y partïon, caiff panel, ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawriad, oedi'r achos er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth neu at unrhyw ddiben arall.
- (2) Pan fydd y gwrandawriad wedi cael ei oedi, bydd y clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn rhoi gwybod i'r partïon am y dyddiad a bennwyd ar gyfer ailgychwyn y gwrandawriad.

### **Pleidleisio**

14. (1) Bydd penderfyniadau'r panel yn cael eu gwneud trwy fwyafrif syml.
- (2) Ni chaiff cadeirydd y panel arfer pleidlais fwrw.
- (3) Bydd unrhyw ymataliad yn cael ei ystyried yn bleidlais o blaid yr unigolyn cofrestredig.

### **Trawsgrifio'r gwrandawriad**

15. (1) Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i recordio gwrandawriad gerbron panel.
- (2) Ar ôl derbyn cais gan yr unigolyn cofrestredig, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn anfon trawsgrifiad a/neu gopi electronig o'r recordiad, o unrhyw ran o'r achos yr oedd gan yr unigolyn hwnnw hawl i fod yn bresennol ynddi, at yr unigolyn cofrestredig.

### **Achos heb wrandawriad**

16. (1) Pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliad 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol, bydd gofynion canlynol y rheol hon a rheol 17 yn berthnasol o ran y weithdrefn i'w dilyn.
- (2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at y partïon, a fydd:
  - (a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;



- (b) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel, gan gynnwys:
- (i) cytundeb ysgrifenedig y partïon y ceir penderfynu ar y cais heb wrandawriad;
  - (ii) datganiad o ffeithiau cytunedig lle mae'r unigolyn cofrestredig yn cytuno bod y sail/seiliau ar gyfer gosod gorchymyn interim yn bodoli; a
  - (iii) chytundeb ysgrifenedig y partïon â'r gorchymyn interim sydd i'w wneud gan y panel, neu (mewn achos lle mae'r panel yn ystyried adolygu gorchymyn interim) eu cytundeb â'r penderfyniad a nodwyd yn adran 147(1)(b) i (e) y Ddeddf sydd i'w wneud gan y panel, gan gynnwys:
    - (aa) y cyfnod y bydd y gorchymyn interim mewn grym; ac
    - (bb) yn achos gorchymyn cofrestriad amodol interim, yr amodau sydd i'w gosod ar gofrestrriad yr unigolyn cofrestredig â Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (3) Yn amodol ar baragraff (4) isod, pan gyhoeddir hysbysiad o gyfarfod o dan baragraff (2), bydd cais am orchymyn interim yn cael ei glywed heb fod yn gynharach na saith diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o wrandawriad i'r unigolyn cofrestredig.
- (4) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd.
- (5) Bydd Rheol 17 hefyd yn berthnasol pan roddwyd Hysbysiad o Wrandawriad o dan Reol 7 ac mae'r partïon yn cytuno'n ysgrifenedig y ceir penderfynu ar y cais heb wrandawriad ac y bodlonir gofynion eraill paragraff (2)(b) (i), (ii) a (iii) y rheol hon.
- (6) Pan fydd paragraff (5) y rheol hon yn berthnasol, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y dyddiad y trefnwyd cynnal y gwrandawriad panel gorchymynion interim amo'n wreiddiol.

### **Y weithdrefn mewn cyfarfod**

17. (1) Bydd y panel gorchymynion interim yn cyfarfod yn breifat ac yn cael ei gynghori gan gynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti'n bresennol.
- (2) Bydd cadeirydd y panel yn penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn.
- (3) Ar ôl ystyried y dogfennau perthnasol a derbyn cyngor cyfreithiol, bydd y panel yn ystyried a yw'n fodlon bod gofynion rheol 16(2)(b) (i) i (iii) (a) a (b) wedi cael eu bodloni.
- (4) Os yw'n fodlon â'r materion yn (3), bydd y panel yn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud y gorchymyn interim ar un neu fwy o'r seiliau a nodir yn adran 144(5) y Ddeddf, y mae'r partïon yn cytuno â nhw ac, os felly, bydd yn gwneud y gorchymyn interim dan sylw.
- (5) Os nad yw'r panel yn fodlon ag unrhyw fater yn (3) neu (4) uchod, neu os yw'r panel o'r farn ei bod er budd cyfiawnder neu er budd y cyhoedd, bydd y panel yn atgyfeirio'r cais i'w ystyried mewn gwrandawriad panel gorchymynion interim, yn unol â rheol 7.

- (6) Bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i gyfarfod panel gorchmynion interim fel y bônt yn berthnasol i wrandawiadau panel gorchmynion interim, sef rheol 8 (gohirio'r gwrandawriad), rheol 13 (oedi'r gwrandawriad) a rheol 14 (pleidleisio).

### **Hysbysiad o'r penderfyniad**

18. (1) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y gwrandawriad neu'r cyfarfod, bydd y clerics anfon hysbysiad o'r penderfyniad at:
- (a) yr unigolyn cofrestredig;
  - (b) yr achwynydd;
  - (c) y cyflogwr/cyflogwyr (os yw'n berthnasol);
  - (ch) os yw'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y brifysgol.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu:
- (a) Llywodraeth Cymru;
  - (b) corff rheoleiddio o'i benderfyniad.
- (3) Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi gwybod i Awdurdodau Cymwys eraill perthnasol os yw hynny'n ofynnol yn unol ag unrhyw drefniadau perthnasol rhwng gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r DU o'r ddwy ochr.
- (4) Bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad a anfonir at yr unigolyn cofrestredig:
- (a) yn cofnodi unrhyw gyngor a roddwyd gan y cynghorydd cyfreithiol neu'r cynghorydd meddygol;
  - (b) yn amlinellu penderfyniad y panel ynglŷn â ph'un ai gwneud gorchymyn interim ac, os felly, telerau a hyd y gorchymyn;
  - (c) yn nodi'r rhesymau dros benderfyniad y panel;
  - (ch) pan osodwyd gorchymyn atal dros dro interim, yn amlinellu cyfnod yr ataliad dros dro, gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn;
  - (d) pan osodwyd gorchymyn cofrestriad amodol dros dro, yn amlinellu hyd y gorchymyn a'r amod neu'r amodau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig gydymffurfio ag ef/â nhw;
  - (dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i apelio i'r tribiwnlys.
- (5) Bydd yr hysbysiad o'r penderfyniad a anfonir at unrhyw unigolyn heblaw am yr unigolyn cofrestredig yn amlinellu penderfyniad y panel ynglŷn â ph'un ai gwneud gorchymyn interim ac, os felly, telerau a hyd y gorchymyn.

## RHAN IV

### GWRANDAWIADAU GORCHMYNION INTERIM ADDASRWYDD I YMARFER

#### Hysbysiad o'r gwrandawriad

19. (1) Yn amodol ar baragraffau (4) a (5) isod, pan fydd achos wedi cael ei atgyfeirio i'r panel ar gyfer gwrandawriad ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dymuno gwneud cais am orchymyn interim, bydd hysbysiad yn cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig, a fydd:
- (a) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i fynychu'r gwrandawriad gerbron y panel;
  - (b) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawriad;
  - (c) yn rhoi datganiad byr i'r unigolyn cofrestredig o'r materion sy'n ymddangos fel petaent yn codi amheuan ynglŷn â:
    - (i) ph'un a ddylai cofrestriad yr unigolyn cofrestredig gael ei atal dros dro neu fod yn ddarostyngedig i amodau; a
    - (ii) pham y mae'r cyfryw gam yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn aelodau'r cyhoedd neu pam y mae er budd y cyhoedd neu er budd yr unigolyn cofrestredig fel arall;
  - (ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawliau i roi tystiolaeth yn bersonol, galw tystion a chroesholi unrhyw dystion a elwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 35(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd);
  - (d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r panel yn bersonol neu i gael ei gynrychioli gan:
    - (i) gyfreithiwr neu gwmsler; neu
    - (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
    - (iii) os yw'r panel yn cytuno, unrhyw unigolyn arall;
  - (dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod yr unigolyn cofrestredig yn gofyn i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus ac nid yw'r panel yn credu y byddai hynny'n groes i fudd y cyhoedd;
  - (e) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, yn amodol ar baragraff, bod rhaid i unrhyw gais am gael ei gynrychioli gan unigolyn heblaw am y rhai a restrir ym mharagraff (d) (i) neu (ii) uchod, gael ei anfon at y clerc o leiaf dri diwrnod cyn gwrandawriad, gan nodi enw'r cynrychiolydd arfaethedig a chadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
  - (f) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig na chaiff unigolyn sy'n cynrychioli neu'n cynghori'r unigolyn cofrestredig roi tystiolaeth;
  - (ff) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, yn amodol ar baragraff (3), os na fydd yn dymuno mynychu'r gwrandawriad, y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad i'w hystyried gan y panel;
  - (g) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;
  - (ng) yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â ph'un a yw'r unigolyn cofrestredig yn bwriadu:
    - (i) mynychu'r gwrandawriad;
    - (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad;
    - (iii) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig;

- (iv) gofyn i'r cais gael ei benderfynu heb wrandawriad os yw'r amgylchiadau yn rheoliad 18(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol;
  - (h) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau sydd i'w cyflwyno gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.
- (2) Yn amodol ar baragraffau (3), (4) a (5) isod, pan gyhoeddir hysbysiad o wrandawriad o dan baragraff (1), bydd cais am orchymyn interim yn cael ei glywed heb fod yn gynharach na saith diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o wrandawriad i'r unigolyn cofrestredig.
  - (3) Caiff y panel hepgor gofynion paragraff (1)(e) neu (i) neu'r cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd neu er budd cyfiawnder.
  - (4) Er gwaethaf paragraff (3) uchod, ac yn amodol ar baragraff (5), ni fydd y panel yn gosod gorchymyn interim ar gofrestrriad unigolyn cofrestredig heb hysbysu'r unigolyn cofrestredig o'r bwriad hwnnw yn gyntaf, fel y bo'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos.
  - (5) Pan fydd gwrandawriad addasrwydd i ymarfer wedi dechrau ond nid yw'r panel wedi gwneud penderfyniad terfynol eto yn unol ag adrannau 135 i 138 y Ddeddf, caiff y panel wneud neu adolygu gorchymyn interim tra'n disgwyl penderfyniad terfynol heb gael hysbysiad yn unol â'r rheol hon.

#### **Y weithdrefn mewn gwrandawriad gorchymynion interim panel addasrwydd i ymarfer**

20. (1) Os nad yw'r unigolyn cofrestredig yn bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad, bydd y panel:
  - (a) yn mynnu cael tystiolaeth bod hysbysiad o'r gwrandawriad wedi cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig yn unol â rheol 19 neu dystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i hysbysu'r unigolyn cofrestredig; ac
  - (b) yn holi a oes unrhyw resymau pam nad yw'r unigolyn cofrestredig yn bresennol wedi cael eu cyfleu i Ofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Lle mae paragraff (1) yn berthnasol, bydd y panel yn penderfynu p'un ai ymarfer y disgrisiwn o dan reoliad 25(4) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) i fwrw ymlaen â'r gwrandawriad yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig neu oedi, a bydd yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad.
- (3) Dilynir y weithdrefn ganlynol mewn gwrandawriad gorchymynion interim panel addasrwydd i ymarfer:
  - (a) bydd y cyflwynydd yn amlinellu'r rhesymau pam y dylai cofrestrriad yr unigolyn cofrestredig fod yn ddarostyngedig i orchymyn interim, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny;
  - (b) caiff yr unigolyn cofrestredig amlinellu'r rhesymau pan na ddylai'r panel ganiatáu cais o'r fath, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny;
  - (c) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd cyfreithiol;
  - (ch) bydd y panel yn cael cyngor gan y cynghorydd meddygol (os yw'n bresennol);
  - (d) bydd y panel yn trafod *in camera*;

- (dd) pan fydd y panel yn penderfynu y dylai gorchymyn cofrestriad amodol interim gael ei osod, bydd y panel yn cyhoeddi'r amod(au) i'w cynnwys yn y gorchymyn hwnnw ac yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig (pan fydd yn bresennol) a'r cyflwynydd i wneud sylwadau ar eiriad yr amod(au) arfaethedig a gallu'r unigolyn cofrestredig i gydymffurfio, cyn i'r panel gwblhau geiriad yr amod(au) yn derfynol;
  - (e) bydd y panel yn penderfynu ar y cais ac yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, ym mhresenoldeb y partïon;
  - (f) pan fydd yr achos yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, bydd y panel yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, yn gyhoeddus.
- (4) Bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i wrandawiadau gorchymynion interim panel addasrwydd i ymarfer fel y bônt yn berthnasol i wrandawiadau panel gorchymynion interim, sef rheol 6 (rheoli achos); rheol 8 (gohirio'r gwrandawriad); rheol 9 (y weithdrefn); rheol 10 (tystiolaeth); rheol 11 (tystion); rheol 12 (mesurau arbennig); rheol 13 (oedi'r gwrandawriad); rheol 14 (pleidleisio); rheol 15 (trawsgrifiad o'r gwrandawriad); a rheol 18 (hysbysiad o'r penderfyniad).

#### **Achos heb wrandawriad**

21. (1) Pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliad 18(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn berthnasol, bydd gofynion canlynol y rheol hon a rheol 22 yn berthnasol o ran y weithdrefn i'w dilyn.
- (2) Bydd y clerch yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at y partïon, a fydd:
- (a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
  - (b) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel, gan gynnwys:
    - (i) cytundeb ysgrifenedig y partïon y ceir penderfynu ar y cais heb wrandawriad;
    - (ii) datganiad o ffeithiau cytunedig lle mae'r unigolyn cofrestredig yn cytuno bod y sail/seiliau ar gyfer gosod gorchymyn interim yn bodoli; a
    - (iii) chytundeb ysgrifenedig y partïon â'r gorchymyn interim sydd i'w wneud gan y panel, neu (mewn achos lle mae'r panel yn ystyried adolygu gorchymyn interim) eu cytundeb â'r penderfyniad a nodwyd yn adran 147(1)(b) i (e) y Ddeddf sydd i'w wneud gan y panel, gan gynnwys:
      - (aa) y cyfnod y bydd y gorchymyn interim mewn grym; ac
      - (bb) yn achos gorchymyn cofrestriad amodol interim, yr amodau sydd i'w gosod ar gofrestrriad yr unigolyn cofrestredig â Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (3) Yn amodol ar baragraff (4) isod, pan gyhoeddir hysbysiad o wrandawriad o dan baragraff (2), bydd cais am orchymyn interim yn cael ei glywed heb fod yn gynharach na saith diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o wrandawriad i'r unigolyn cofrestredig.
- (4) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (2) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd.
- (5) Bydd Rheol 22 hefyd yn berthnasol pan roddwyd Hysbysiad o Wrandawriad o dan Rheol 19 ac mae'r partïon yn cytuno'n ysgrifenedig y ceir penderfynu ar y

cais heb wrandawriad ac y bodlonir gofynion eraill paragraff (2)(b) (i), (ii) a (iii) y rheol hon.

- (6) Pan fydd paragraff (5) y rheol hon yn berthnasol, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y dyddiad y trefnwyd cynnal y gwrandawriad Panel Gorchmynion Interim Addasrwydd i Ymarfer arno'n wreiddiol.

### **Y weithdrefn mewn cyfarfod**

22. (1) Bydd y panel addasrwydd i ymarfer yn cyfarfod yn breifat ac yn cael ei gynghori gan gynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti'n bresennol.
- (2) Bydd cadeirydd y panel addasrwydd i ymarfer yn penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn.
- (3) Ar ôl ystyried y dogfennau perthnasol a derbyn cyngor cyfreithiol, bydd y panel addasrwydd i ymarfer yn ystyried a yw'n fodlon bod gofynion rheol 21(2)(b) (i) i (iii) (aa) a (bb) wedi cael eu bodloni.
- (4) Os yw'n fodlon â'r materion yn (3), bydd y panel addasrwydd i ymarfer yn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud y gorchymyn interim ar un neu fwy o'r seiliau a nodir yn adran 144(5) y Ddeddf, y mae'r partïon yn cytuno â nhw ac, os felly, bydd yn gwneud y gorchymyn interim dan sylw.
- (5) Os nad yw'r panel addasrwydd i ymarfer yn fodlon ag unrhyw fater yn (3) neu (4) uchod, neu os yw o'r farn ei bod er budd cyfiawnder neu er budd y cyhoedd, caiff y panel addasrwydd i ymarfer atgyfeirio'r cais i'w ystyried mewn gwrandawriad panel gorchmynion interim panel addasrwydd i ymarfer, yn unol â rheolau 19 ac 20.
- (6) Bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i gyfarfodydd gorchmynion interim panel addasrwydd i ymarfer fel y bônt yn berthnasol i wrandawriadau panel gorchmynion interim, sef rheol 8 (gohirio'r gwrandawriad), rheol 13 (oedi'r gwrandawriad); rheol 14 (pleidleisio); a rheol 18 (hysbysiad o'r penderfyniad).

## RHAN V

### ADOLYGU GORCHMYNION INTERIM

#### Hysbysiad o'r gwrandawriad

23. (1) Pan fydd angen adolygu gorchymyn interim o dan adran 146 y Ddeddf, bydd hysbysiad o'r gwrandawriad yn cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig. Bydd yr hysbysiad hwn yn nodi dyddiad ar gyfer cynnal y gwrandawriad yn unol â'r graddfeydd amser a bennir yn adrannau 146 (4), (6), (7) neu (8) y Ddeddf.
- (2) Bydd yr hysbysiad o dan baragraff (1):
- (a) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i fynychu'r gwrandawriad;
  - (b) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawriad;
  - (c) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig y caiff y panel, ar ôl cwblhau'r adolygiad, wneud un o'r penderfyniadau a nodir yn adran 147(1)(a) i (e) y Ddeddf;
  - (ch) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawliau i roi tystiolaeth yn bersonol, galw tystion a chroesholi unrhyw dystion a elwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, yn amodol ar gyfyngiadau ar yr hawl i groesholi tystion o dan reoliad 35(12)-(14) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y'u diwygiwyd);
  - (d) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r panel yn bersonol neu i gael ei gynrychioli gan:
    - (i) gyfreithiwr neu gwmsler; neu
    - (ii) gynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol; neu
    - (iii) os yw'r panel gorchymynion interim yn cytuno, unrhyw unigolyn arall;
  - (dd) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod yr unigolyn cofrestredig yn gofyn i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus ac nid yw'r panel yn credu y byddai hynny'n groes i fudd y cyhoedd;
  - (e) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, yn amodol ar baragraff (3), bod rhaid i unrhyw gais am gael ei gynrychioli gan unigolyn heblaw am y rhai a restrir ym mharagraff (d) (i) neu (ii) uchod, gael ei anfon at y clerck o leiaf dri diwrnod cyn gwrandawriad, gan nodi enw'r cynrychiolydd arfaethedig a chadarnhau na fydd y cynrychiolydd arfaethedig yn cael ei alw fel tyst;
  - (f) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig na chaiff unigolyn sy'n cynrychioli neu'n cynghori'r unigolyn cofrestredig roi tystiolaeth;
  - (ff) yn rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig, yn amodol ar baragraff (3), os na fydd yn dymuno mynychu'r gwrandawriad, y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad i'w hystyried gan y panel;
  - (g) yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â ph'un a yw'r unigolyn cofrestredig yn bwriadu:
    - (i) mynychu'r gwrandawriad;

- (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad;
  - (iii) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig;
  - (iv) gofyn i'r cais gael ei benderfynu heb wrandawriad os yw'r amgylchiadau yn rheoliad 18(1) neu 30(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn berthnasol (fel y'u diwygiwyd);
- (ng) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau sydd i'w cyflwyno gerbron y panel, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.

- (3) Caiff y panel hepgor gofynion paragraff (1)(e) neu (i) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd neu er budd cyfiawnder.

### **Y weithdrefn wrth adolygu gorchymyn interim**

24. (1) Bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i achosion adolygu gorchymyn interim fel y bônt yn berthnasol i naill ai achosion panel gorchymynion interim neu achosion gorchymynion interim panel addasrwydd i ymarfer, yn ôl y digwydd, sef: rheol 6 (rheoli achos); rheol 8 (gohirio'r gwrandawriad); rheolau 9 ac 20 (y weithdrefn mewn gwrandawriad); rheol 10 (tystiolaeth); rheol 11 (tystion); rheol 12 (mesurau arbennig); rheol 13 (oedi'r gwrandawriad); rheol 14 (pleidleisio); rheol 15 (trawsgrifiad o'r gwrandawriad); rheolau 16 a 21 (achos heb wrandawriad); rheolau 17 a 22 (y weithdrefn mewn cyfarfod) a rheol 18 (hysbysiad o'r penderfyniad).
- (2) Bydd angen gwneud unrhyw benderfyniad i ohirio yn unol â rheol 8 neu oedi yn unol â rheol 13, yn unol â gofynion adran 146 y Ddeddf.

### **Rhoi Hysbysiadau**

25. (1) Gall yr hysbysiadau y mae angen eu hanfon at unigolyn cofrestredig o dan y rheolau hyn gael eu hanfon:
- (a) trwy bost electronig i gyfeiriad post electronig sy'n gyfeiriad a roddwyd gan yr Ymgeisydd, yr Apelydd neu'r Unigolyn Cofrestredig i Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer cyfathrebu, neu'r cyfryw gyfeiriad post electronig diweddaraf arall sy'n hysbys i Ofal Cymdeithasol Cymru, neu
- (b) trwy wasanaeth post neu wasanaeth danfon arall y mae ei ddanfon neu ei dderbyn yn cael ei gofnodi i gyfeiriad post yr Ymgeisydd, yr Apelydd neu'r Unigolyn Cofrestredig, neu trwy ei adael yno, fel y rhoddwyd y cyfeiriad yn y gofrestr (lle y bo'n berthnasol) neu'r cyfryw gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i Ofal Cymdeithasol Cymru.



**Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru**

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mick Giannasi'. The signature is written in a cursive style with some loops and a long horizontal stroke at the end.

**Mick Giannasi**

**Cadeirydd**

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

**21/07/2022**